

ASTUDIAETHAU CREFYDD

Amser – 1.5 awr

Dylai ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio Beibl neu unrhyw destunau ysgrythurol eraill yn ystod yr arholiad.

1. 'Ysgrifau sanctaidd yw'r ffurf bwysicaf ar awdurdod crefyddol i gredinwyr crefyddol'. Gwerthuswch yr honiad hwn yng ngoleuni eich astudiaeth o un neu fwy o grefyddau.
2. Archwiliwch ddysgeidiaethau crefyddol penodol am natur bywyd ar ôl marwolaeth. Rhowch enghreifftiau o'r grefydd/crefyddau yr ydych wedi eu hastudio yn eich ateb.
3. Eglurwch bwysigrwydd cred mewn **un** Duw yn **un** o'r crefyddau canlynol: Iddewiaeth, Cristnogaeth neu Islam.
4. 'Nid oes gwrthdaro rhwng crefydd a gwyddoniaeth, a mae dealltwriaeth o'r naill yn cyfoethogi'n dirnadaeth o gyfoeth y llall'. I ba raddau mae'r datganiad hwn yn gywir ?
5. Trafodwch i ba raddau y mae'n gredadwy i gredinwyr crefyddol fabwysiadu un damcaniaeth moesol er mwyn gallu asesu pob sefyllfa foesol.
6. Eglurwch bwysigrwydd myfyrdod mewn crefydd.
7. Eglurwch beth y mae'r Iddewon yn ei gredu ynglŷn â'u rôl fel pobl etholedig Duw.
8. 'Mae cyfraniad Martin Luther fel dehonglydd beiblaidd a diwygiwr crefyddol yn ail-fowldio eglwys a chymdeithas bron yn ddigyffelyb yn hanes Cristnogaeth'. Aseswch wirionedd yr honiad hwn.
9. Archwiliwch rôl a phwysigrwydd y teulu naill ai mewn Iddewiaeth neu Islam.

10. Aseswch y farn na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i Fwdhaeth pe na bai'r Bwdha erioed wedi byw.
11. 'Nid yw profiad crefyddol yn ffordd ddibynadwy o ddeall natur Duw/Realiti Eithaf.' Gwerthuswch y datganiad hwn.
12. Archwiliwch rôl a phwysigrwydd defodau crefyddol a phererindodau yn y grefydd/ crefyddau a astudiwyd gennych.
13. Beth yw nodweddion arbennig y gwahanol fathau o Fwdhaeth a ymarferir heddiw ?
14. A yw'n angenrheidiol i Gristnogion gredu mai Iesu Grist yw Mab Duw ?
15. Aseswch gyfraniad unrhyw ddau ddysgawdr/athro Hindŵaidd i'n dealltwriaeth o'r grefydd honno.